Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Canllawiau atodol ar gynllunio'r cwricwlwm

Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol



## Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 092/2013
Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2013

# Canllawiau atodol ar gynllunio'r cwricwlwm

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru; awdurdodau lleol Cymru a chonsortia addysg rhanbarthol; undebau; sefydliadau amrywiol sydd â diddordeb mewn llythrennedd a rhifedd; ac aelodau'r cyhoedd. |
| **Trosolwg** | Mae'r canllawiau atodol ar gynllunio'r cwricwlwm hyn yn helpu ysgolion yng Nghymru i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Cangen y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Ysgol<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 5447<br>e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn unig yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Rhaglen Rhifedd Genedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2: Arfarniad o effaith y Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 2* (Estyn, 2011); *Y Framwaith Medrau yng nghyfnod allweddol 3: Arfarniad o effaith y fframwaith medrau anstatudol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3* (Estyn, 2012); *Ar Drywydd Dysgu map llwybrau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006); *Asesu cynnydd mathemategol plant 5–14 oed mewn ysgolion yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Canllaw ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); *Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

ISBN digidol 978 0 7504 8566 1
© Hawlfraint y Goron 2013
WG17007

# Cynnwys

**Beth yw diben y ddogfen hon?** **2**

**Strwythur y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)** **3**
Fframwaith cynhwysol 3
Ategu *Ar Drywydd Dysgu* 4
Adnodd cynllunio'r cwricwlwm 7
Adnodd asesu 7

**Cynllunio ar gyfer cyflawni'r FfLlRh** **8**
Gosod y cyd-destun 9
Trefnu'r ystafell ddosbarth 14

**Adrodd** **16**

**Crynodeb** **17**

# Beth yw diben y ddogfen hon?

Diben y ddogfen hon yw ategu *Canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm* ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) drwy roi rhagor o wybodaeth benodol am ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) penodol.

Yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n rhoi sail statudol i'r cysyniad o 'anghenion ychwanegol' yn lle Rhan IV o Ddeddf Addysg 1996. Fodd bynnag, defnyddir terminoleg gyfredol yn y ddogfen hon.

Anelir y canllawiau atodol hyn yn bennaf at ysgolion arbennig a lleoliadau arbenigol (prif ffrwd) ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd y mae ganddynt un neu fwy o ddysgwyr nad ydynt yn cyrraedd disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn y dosbarth Derbyn.

Canllawiau atodol ar gynllunio'r cwricwlwm

Ionawr 2013

Dogfen ganllawiau rhif: 092/2013

# Strwythur y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)

## Fframwaith cynhwysol

Cymerwyd gofal mawr i sicrhau bod pob dysgwr wedi'i gynnwys yn llawn yng nghwmpas y FfLlRh. O ran llythrennedd a rhifedd, cynlluniwyd y FfLlRh i gynnwys anghenion pob dysgwr yn llawn. Ym mhob achos, mae'r FfLlRh yn cwmpasu'r canlynol.

| Llwybrau at … | | | | Y Cyfnod Sylfaen | | | Cyfnod Allweddol 2 | | | | Cyfnod Allweddol 3 | | | Ymestyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datganiadau o ddilyniant (nad ydynt yn gysylltiedig ag oedran) | | | | Disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran | | | Disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran | | | | Disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran | | | Datganiadau o ddilyniant (nad ydynt yn gysylltiedig ag oedran) |
| Map llwybrau *Ar Drywydd Dysgu* (ADD) | Camau A | Camau B | Camau C | Dosbarth Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 | |

O ran y mwyafrif llethol o ddysgwyr yng Nghymru, bydd y disgwyliadau sy'n gysylltiedig â'u hoedran yn briodol. Serch hynny, efallai y caiff cyflawniadau cyfredol dysgwyr eu dosbarthu i fwy nag un golofn, er enghraifft Blwyddyn 1/Blwyddyn 2, ar gyfer agweddau gwahanol (llythrennedd) neu elfennau gwahanol (rhifedd), ond gellir cynllunio ar gyfer cynnydd o fewn disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran ar gyfer eu cyfnod allweddol, er enghraifft y Cyfnod Sylfaen.

Mewn achosion lle nad yw dysgwyr (er enghraifft mewn dosbarth Derbyn) eto'n cyrraedd y disgwyliad sy'n gysylltiedig ag oedran mewn rhyw elfen neu agwedd, a bod angen ymyriadau sy'n fwy unigol, gall fod yn ddefnyddiol i athrawon ystyried y datganiad o ddilyniant ar gyfer yr elfen neu'r agwedd honno yng ngholofn 'Camau C' y gydran 'Llwybrau at lythrennedd' neu 'Lwybrau at rifedd' o'r FfLlRh.

Mewn ysgolion arbennig a lleoliadau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd, bydd llawer o ddysgwyr yn gweithio islaw'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran ond bydd y mwyafrif ohonynt yn gwneud cynnydd ar ryw adeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol i lefelau o sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n gyson ag adran Cyfnod Sylfaen y FfLlRh. Bydd nifer sylweddol lai yn gwneud cynnydd pellach ac yn dechrau cymhwyso rhai o'r datganiadau yn adran Cyfnod Allweddol 2.

Fodd bynnag, i lawer o ddysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog, colofnau cyntaf y FfLlRh yn y gydran 'Llwybrau at lythrennedd' a 'Llwybrau at rifedd' fydd yn rhoi'r canllaw gorau ar gynnydd ar gyfer y rhan fwyaf o'u cyfnod yn yr ysgol neu'r cyfnod cyfan.

## Ategu *Ar Drywydd Dysgu*

Mae'r FfLlRh yn ategu *Ar Drywydd Dysgu* (ADD), a gyhoeddwyd yn 2006 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cynlluniwyd deunyddiau asesu ADD ar gyfer athrawon ag anawsterau dysgu dwys a lluosog.

Mae map llwybrau ADD yn cynnwys 43 o eitemau sy'n galluogi athrawon i gynllunio dilyniant addas drwy sgiliau cyfathrebu a gwybyddol cynnar. Wrth i ddysgwyr symud ymlaen i'r eitemau lefel uwch o'r map llwybrau, byddant yn dechrau cyflawni'r rheini a ddangosir yng ngholofn gyntaf y FfLlRh. Dewiswyd yr elfennau hyn i adlewyrchu rhagflaenwyr cynnar pwysig ar gyfer agweddau (llythrennedd) neu elfennau (rhifedd) sy'n ymddangos mewn colofnau dilynol o'r FfLlRh. Dangosir yr eitemau dethol yn y FfLlRh wrth ymyl eu rhif cyfatebol ar y map llwybrau, e.e. Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau *[ADD 36]*.

Mae colofnau dilynol yn y FfLlRh (Camau ABC) yn darparu datganiadau o ddilyniant sy'n disgrifio'r camau y gall dysgwyr eu cymryd wrth iddynt atgyfnerthu a chymhwyso eu sgiliau a gwneud cynnydd tuag at y lefelau perfformiad a ddisgrifir yn y golofn Dosbarth Derbyn a thu hwnt.

Caiff sgiliau eu cymhwyso mewn amrywiaeth o gyd-destunau mwy penodol wrth i ddysgwyr symud ymlaen o'r cerrig milltir mwy cyffredinol ar fap llwybrau ADD i'r camau ABC. Felly, mae rhai eitemau ADD yn ymddangos fel rhagflaenwyr ar gyfer sawl elfen/agwedd ar y FfLlRh (fel y gwelir yn yr enghraifft isod).

| Map llwybrau ADD | Camau A |
|---|---|
| **Rhannu sylw** ***[ADD 40]***<br><br>Pan fydd yr oedolyn a'r dysgwr yn rhannu ysgogiad, gall y dysgwr ymdrin â'r ysgogiad ac yna'r oedolyn yn ei dro. | **Darllen ar draws y cwricwlwm**<br>Mae dysgwyr yn gallu dangos diddordeb wrth i oedolyn ddarllen stori, gan edrych ar y llyfr, ei gyffwrdd a'i drin a'i drafod ar brydiau. |
| | **Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm**<br>Mae dysgwyr yn gallu edrych ar/cydnabod eu 'llun' pan fydd oedolyn yn siarad am yr hyn y maent wedi'i wneud. |
| | **Rhifedd**<br>Mae dysgwyr yn gallu dangos diddordeb mewn gweithgareddau rhif a chyfrif gydag oedolyn, copïo rhai gweithredoedd, a/neu leisio ar adegau priodol. |

Canllawiau atodol ar gynllunio'r cwricwlwm

Ionawr 2013

Dogfen ganllawiau rhif: 092/2013

Dengys y datganiadau o ddilyniant sut mae agweddau (llythrennedd) ac elfennau (rhifedd) yn datblygu ar hyd continwwm ar gyfer pob dysgwr. O ran dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog, mae'n debygol y bydd yn cymryd llawer o amser (er enghraifft, sawl blwyddyn) iddynt symud ymlaen o un golofn o'r FfLlRh i un arall (e.e. 'Camau A' i 'Camau B'). Fodd bynnag, gellir cynllunio camau bach o gynnydd o fewn y datganiadau o ddilyniant a rhyngddynt yn yr un golofn ag y caiff sgiliau eu 'cyflwyno' yn gyntaf (fwy na thebyg mewn cyd-destun wedi'i ddiffinio'n benodol gyda chymorth sylweddol), eu hatgyfnerthu (gyda llai o gymorth) a'u cymhwyso'n briodol mewn ystod eang o gyd-destunau.

Er enghraifft, o ran Llafaredd ar draws y cwricwlwm, ceir enghreifftiau o'r agwedd 'siarad' yng 'Nghamau B' drwy nifer o ddatganiadau o ddilyniant, gan gynnwys *'defnyddio geiriau/arwyddion/symbolau unigol a rhai brawddegau dwy ran, e.e. i ddweud eu bod am ailadrodd rhywbeth neu am i rywbeth ddigwydd eto'.* Gall dysgwyr ddangos dilyniant yn y sgil hwn drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol wrth iddynt ddechrau ei atgyfnerthu a'i gymhwyso:

- yn fwy hyderus
- at amrywiaeth cynyddol o ddibenion
- mewn perthynas ag amrywiaeth cynyddol o ddeunydd ac adnoddau
- gydag amrywiaeth o bobl wahanol, gan gynnwys cyfoedion ac oedolion
- mewn amrywiaeth cynyddol o leoliadau (yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi)
- drwy eiriau, arwyddion, lluniau, symbolau neu gyfuniad o rai o'r rhain
- gan ddefnyddio mwy o frawddegau dwy ran
- gyda llai o gymorth gan arwain at ddefnydd rhagweithiol ac annibynnol
- mewn amrywiaeth cynyddol o gyd-destunau a luniwyd o feysydd/pynciau gwahanol o'r cwricwlwm.

P'un a yw dysgwyr yn gweithio ar fap llwybrau ADD, y camau ABC neu golofnau'r Cyfnod Sylfaen, mae'n bwysig felly y gwneir mwy na 'thicio' datganiadau. Bydd angen i athrawon oruchwylio perfformiad presennol dysgwyr a defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio tasgau a phrofiadau a fydd yn eu galluogi i atgyfnerthu a chymhwyso

eu sgiliau ymhellach. Bydd angen casglu tystiolaeth dros amser i ddangos bod sgil yn cael ei gymhwyso mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol ar draws y cwricwlwm cyn y gellir ystyried bod y sgil a ddisgrifir mewn datganiad penodol o ddilyniant yn faes o gryfder. Os bydd mwy nag un athro/athrawes yn gweithio gyda dysgwr, mae'n bwysig bod pob athro/athrawes yn ymwybodol o berfformiad presennol y dysgwyr ar y FfLlRh ac yn gallu helpu i'w ddeall.

Gan y bydd dysgwyr ag anghenion gwahanol yn dangos eu sgiliau ym mha bynnag ffordd y gallant, bydd angen i athrawon ddefnyddio eu barn broffesiynol wrth ddehongli datganiadau o ddilyniant. Er enghraifft, efallai y bydd dysgwr ag anableddau corfforol na all drin a thrafod gwrthrychau yn hawdd yn dangos ei fod yn gallu *'cyfrif hyd at 5 o wrthrychau'n ddibynadwy'* drwy ddefnyddio ei lygaid i bwyntio at rifau sydd wedi'u gosod cryn bellter oddi wrth ei gilydd (er mwyn i'r athro/athrawes allu deall ymateb y dysgwr yn glir). Fel arall, efallai y bydd yn defnyddio swîts i ddewis rhif ar sgrin arddangos. Efallai y bydd yr un dysgwr yn gallu *'adrodd rhifau o 1 i 10'* drwy restru rhifau sydd wedi'u harddangos mewn trefn ar hap drwy raglen gyfrifiadurol a reolir gan swîts. Yr her mewn achosion o'r fath fydd galluogi'r dysgwr i gymhwyso'r sgiliau hyn mewn amrywiaeth ehangach o sefyllfaoedd.

Mae 'Gweithgareddau asesu/pethau i roi cynnig arnynt' a 'pethau i chwilio amdanynt' ar gael i helpu i egluro pob datganiad o ddilyniant. Mae'r rhain yn darparu enghreifftiau o gyd-destunau ac ymatebion posibl gan y dysgwyr ym mhob achos. Dylai athrawon gyfeirio at y rhain wrth ystyried beth y gall dysgwyr ei wneud. Maent ar gael:

- (ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar y map llwybrau) yn y 'Llyfryn Asesu' sy'n rhan o ddeunydd *Ar Drywydd Dysgu*
- (ar gyfer dysgwyr ar Gamau ABC) yn y deunyddiau enghreifftiol ar gyfer Llwybrau at lythrennedd a Llwybrau at rifedd a fydd ar gael yn ystod gwanwyn 2013.

Efallai y bydd dysgwyr yn datblygu ar gyflymder gwahanol ar gyfer agweddau neu elfennau gwahanol o'r FfLlRh. Mae'n debygol y bydd pob dysgwr yn dangos ei 'broffil' unigol ei hun ac efallai y bydd yn dangos graddau amrywiol o gymhwysedd mewn datganiadau gwahanol o ddilyniant – gall y rhain rychwantu mwy nag un golofn. Nid oes unrhyw ofyniad ar ddysgwyr i gyflawni **pob** eitem o fewn colofn (e.e. pob agwedd yn ymwneud â cholofn 'Camau B' mewn Llafaredd ar draws y cwricwlwm) cyn y caiff eitemau yn y golofn ddilynol ('Camau C') eu hystyried.

## Adnodd cynllunio'r cwricwlwm

Mae ysgolion arbennig a lleoliadau arbenigol bob amser wedi rhoi sylw o fewn y cwricwlwm i sgiliau cyfathrebu a gwybyddol ac wedi cydnabod eu cyfraniad hanfodol fel sail i lythrennedd a rhifedd. Mae llawer o arfer da yn canolbwyntio ar y sgiliau hanfodol hyn ac mae llawer o ysgolion eisoes yn defnyddio'r cyd-destunau a ddarperir gan feysydd/pynciau'r cwricwlwm fel modd i gyflwyno, atgyfnerthu a chymhwyso'r sgiliau hyn. Bydd y FfLlRh yn annog ysgolion i ddatblygu hyn ymhellach. Mewn rhai ysgolion, ar hyn o bryd efallai bod gwaith cynllunio yn canolbwyntio mwy ar fynd i'r afael â sgiliau llythrennedd a rhifedd o fewn gwersi pwnc ar gyfer y Gymraeg (neu Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg) a mathemateg. Bellach bydd angen i bob ysgol sicrhau y caiff cyfleoedd dilyniant mewn perthynas â sgiliau llythrennedd a rhifedd eu mapio ar draws holl feysydd/pynciau perthnasol y cwricwlwm ac y daw'r FfLlRh yn fan cychwyn ar gyfer cynllunio.

## Adnodd asesu

Er mai adnodd cynllunio cwricwlwm ydyw'n bennaf, bydd y FfLlRh hefyd yn helpu athrawon i nodi'r sgiliau llythrennedd a rhifedd y mae dysgwr wedi'u meithrin a'r ffyrdd y caiff y sgiliau hyn eu cymhwyso ar hyn o bryd mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. Ni waeth beth fo man cychwyn y dysgwr, bydd y FfLlRh yn helpu athrawon i nodi camau nesaf priodol a chyraeddadwy ar hyd continwwm sy'n gyffredin i bob ysgol. Mewn ysgolion arbennig a lleoliadau arbenigol, bydd yn helpu i lywio'r targedau a bennir gan athrawon, gan gynnwys y dysgwr (i ba raddau bynnag y mae hyn yn bosibl), o fewn eu cynlluniau addysg unigol.

O fis Medi 2014, bydd yn ofynnol i ysgolion gynnal asesiad ffurfiol yn erbyn y FfLlRh. Mae hyn yn golygu y bydd ganddynt flwyddyn academaidd lawn i ganolbwyntio ar ymgorffori'r FfLlRh i mewn i'w gwaith cynllunio cwricwlwm a'u haddysgu a'u dysgu cyn ei bod yn ofynnol iddynt asesu cynnydd dysgwyr yn ei erbyn.

Dylai ysgolion ddefnyddio'r FfLlRh o hyd i gefnogi eu gwaith Asesu ar gyfer Dysgu fel rhan o arfer addysgu da. Bydd hyn yn llywio adroddiadau i rieni/gofalwyr ar gynnydd eu plentyn mewn llythrennedd a rhifedd, y bydd yn ofynnol eu cyflwyno o hyd bob blwyddyn o fis Medi 2013. Dylai'r adroddiadau i rieni/gofalwyr gynnwys gwybodaeth sy'n seiliedig ar y profion rhifedd a darllen (os yw'r dysgwr wedi sefyll y profion) ac adroddiad naratif ar lythrennedd a rhifedd yn seiliedig ar y FfLlRh.

# Cynllunio ar gyfer cyflawni'r FfLlRh

Gyda'i gilydd, mae'r adran 'Sut y gallwn gynllunio i gyflwyno'r cwricwlwm?' ac Atodiadau 1 a 2 o'r *Canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm* yn rhoi trosolwg ac yn nodi'r camau penodol y dylai ysgolion eu cymryd er mwyn sicrhau bod y FfLlRh yn fan cychwyn i'w gwaith cynllunio. Nodir yn glir mai proses hirdymor yw hon a bod angen i bob ysgol a lleoliad greu cynllun gweithredu er mwyn ei chyflawni dros amser. Darperir diagram sy'n crynhoi'r camau i'w cymryd.

### Gweithredu'r cwricwlwm

| | |
|---|---|
| Ymgyfarwyddo â nodau a diben y FfLlRh.<br>Ymwybyddiaeth o gynnwys, disgwyliadau a dilyniant. | Uwch dîm rheoli (UDRh) (a phenaethiaid adran) yn darparu amserlen ac adnoddau i weithredu'r FfLlRh. |
| Adnabod sgiliau o fewn y FfLlRh sy'n berthnasol i Orchmynion pwnc unigol a fframweithiau statudol. | Hyfforddiant a chymorth yn cael eu rhoi i athrawon er mwyn cefnogi a datblygu eu sgiliau i gynnwys y FfLlRh lle y bo'n briodol yn eu maes/pwnc.<br>Efallai y bydd angen addasu ymagweddau addysgeg er cysondeb ar draws meysydd/pynciau. |
| Meysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen/pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol wedi'u mapio ar y FfLlRh ar lefelau priodol.<br>Cydnabod y bydd datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn cyd-destun yn cefnogi cyrhaeddiad mewn meysydd/pynciau. | Cydlynwyr FfLlRh yn adnabod unrhyw feysydd o'r FfLlRh sydd heb gael sylw. |
| Cynlluniau gwaith wedi'u llunio i addysgu'r FfLlRh gan gynnwys adrannau o gynlluniau gwaith maes/pwnc.<br>Cynlluniau gwaith maes/pwnc yn adlewyrchu cynllun gwaith y FfLlRh. | Adolygu meysydd y FfLlRh sydd heb gael sylw gan gwricwla maes/pwnc.<br>Datblygu tasgau mewn meysydd/pynciau neu gyd-destunau dysgu eraill i gynnwys y meysydd hyn. |
| Dilyniant a gwahaniaethu wedi'u hadnabod yng nghynlluniau gwaith y FfLlRh fel y byddent ar gyfer meysydd/pynciau eraill. | Adolygu a datblygu'r FfLlRh yn mynd rhagddo fel rhan o gylchred cynllunio gweithredu, monitro ac adolygu'r ysgol. |

## Gosod y cyd-destun

Wrth adolygu eu darpariaeth bresennol, bydd rhai ysgolion arbennig a lleoliadau arbenigol yn gweld bod y modelau ar gyfer datblygu cynlluniau hirdymor cynyddol, a gyflwynir yn y *Canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm* hefyd yn addas ar gyfer eu cyd-destunau. Mewn ysgolion arbennig i blant o bob oedran, bydd hyn yn cynnwys adolygu'r trefniadau ym mhob rhan o'r cwricwlwm 5–14.

Fodd bynnag, i lawer o ysgolion a lleoliadau lle mae gan ddysgwyr anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog, fel arfer caiff dilyniant ei reoli drwy waith cynllunio tymor canolig a thymor byr – yn arbennig gynlluniau addysg unigol. Yn yr ysgolion hyn:

- mae dysgwyr yn dechrau meithrin a chymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd gryn dipyn yn ddiweddarach ac yn arafach na'u cyfoedion (sy'n datblygu mewn modd nodweddiadol)
- yn aml, mae dosbarthiadau'n cynnwys dysgwyr o oedrannau gwahanol, sy'n perthyn i nifer o grwpiau blwyddyn gwahanol neu hyd yn oed cyfnodau allweddol gwahanol
- mae anghenion dysgwyr yn amrywiol iawn o fewn unrhyw ddosbarth, felly, yn hytrach nag adlewyrchu 'disgwyliad' sy'n gysylltiedig ag oedran, mae'n debygol y bydd lefelau'r sgiliau a ddangosir gan ddysgwyr gwahanol o fewn dosbarth yn rhychwantu sawl colofn o'r FfLlRh.

Mae'r ffactorau hyn yn creu heriau sylweddol i ysgolion o'r fath o ran rheoli'r cwricwlwm a byddant wedi mabwysiadu nifer o ddulliau gwahanol i ymateb i hynny. Er mwyn sicrhau bod eu cwricwlwm yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn ysgogol i bob dysgwr, efallai y byddant ar hyn o bryd yn gwneud y canlynol:

- dewis cynnwys o'r Cyfnod Sylfaen neu unrhyw gyfnod allweddol o fewn y cwricwlwm a'i ddefnyddio'n hyblyg
- cysylltu cynnwys o feysydd neu bynciau gwahanol a'i gyflwyno'n thematig
- dosbarthu dysgwyr o fewn y dosbarth i grwpiau gwahanol yn ôl eu gallu a darparu deilliannau dysgu gwahanol mewn cynlluniau gwaith
- dwyn ynghyd dysgwyr o oedrannau gwahanol ond lefelau tebyg o ddatblygiad er mwyn addysgu sgiliau allweddol (rhoi dysgwyr mewn setiau)
- canolbwyntio ar sgiliau mewn un rhan o'r diwrnod ysgol a gwaith yn seiliedig ar bwnc mewn rhan arall

- pennu blwyddyn ‘gynllunio’ ar gyfer pob dosbarth o ddysgwyr o oedran cymysg a defnyddio dulliau penodol i sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni dilyniant a pharhad wrth iddynt symud drwy gyfnodau allweddol.

Mae *Cwricwlwm i bob dysgwr: Canllawiau i gynorthwyo athrawon dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) yn rhoi canllawiau manylach ar bob agwedd ar gynllunio cwricwlwm priodol.

Y cam cyntaf wrth lunio cynllun gweithredu fydd ystyried sut y bydd defnyddio’r FfLlRh fel man cychwyn ar gyfer cynllunio yn effeithio ar drefniadau presennol ar gyfer rheoli’r cwricwlwm a ph’un a fydd angen diwygio’r trefniadau hyn mewn unrhyw ffordd. Er enghraifft, os caiff dysgwyr eu rhoi mewn setiau neu os defnyddir dulliau arwahanol eraill i addysgu llythrennedd a rhifedd ar hyn o bryd, neu os caiff dysgwyr eu haddysgu gan nifer o athrawon gwahanol, sut y caiff y broses o gynllunio ar gyfer cymhwyso sgiliau ei rheoli ar draws y cwricwlwm?

Mae’r astudiaeth achos ganlynol yn disgrifio un ysgol a’r camau sy’n cael eu cymryd i ymgorffori’r FfLlRh i mewn i’w gwaith cynllunio.

Astudiaeth achos

## Ysgol arbennig i blant o bob oedran

### Cyd-destun

Yn yr ysgol hon, mae Grŵp Coch yn ddosbarth nodweddiadol. Mae'n cynnwys dysgwyr sy'n amrywio mewn oedran o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 7. O ran y FfLlRh, mae rhai dysgwyr yn gweithio tuag at gyflawni eitemau ar fap llwybrau ADD, mae sawl un yn dangos sgiliau sy'n gyson â 'Chamau ABC' ac mae sgiliau un dysgwr yn cyfateb i ddatganiadau ym Mlwyddyn 1 o'r FfLlRh. Nodir eu targedau penodol yn y cynlluniau addysg unigol.

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol gynlluniau hirdymor sy'n nodi cynnwys perthnasol o Feysydd Dysgu y Cyfnod Sylfaen neu bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol. Fe'u defnyddir fel 'cyd-destunau ar gyfer dysgu', sy'n pwysleisio ehangder a chydbwysedd ac yn trefnu cynnwys mewn grwpiau thematig lle y bo'n berthnasol. Caiff cynlluniau gwaith eu trefnu'n fodiwlau fesul grŵp blwyddyn a thymor. Er bod y rhan fwyaf o ddosbarthiadau'n cynnwys grwpiau blwyddyn cymysg, defnyddir modiwlau o grŵp blwyddyn penodol fel cyd-destunau ar gyfer y dosbarth cyfan. O ran Grŵp Coch, y flwyddyn benodol bresennol yw Blwyddyn 4. Mae gan yr ysgol ddulliau ar waith sy'n sicrhau bod dysgwyr yn profi cyd-destunau sy'n briodol i'w hoedran ac na chaiff yr un cynnwys ei ailadrodd yn yr un ffordd.

### Adolygu'r ddarpariaeth bresennol yn erbyn y FfLlRh

Treuliwyd rhywfaint o amser eisoes yn sicrhau bod pob aelod o staff yn yr ysgol yn gyfarwydd â'r FfLlRh. Mae trafodaethau cychwynnol wedi arwain at farn gyffredin fod y broses gynllunio bresennol ar gyfer rhifedd wedi canolbwyntio'n bennaf ar wersi pwnc mathemateg a bod y FfLlRh yn fodd i atgyfnerthu'r ffordd y caiff sgiliau llythrennedd eu cymhwyso o fewn pynciau eraill.

Gyda'i gilydd, mae athrawon yn penderfynu canolbwyntio i gychwyn ar yr elfennau 'defnyddio sgiliau data', gan nodi cyfleoedd sy'n bodoli eisoes ar draws y cwricwlwm er mwyn mynd i'r afael â nhw.

Dangosir eu dadansoddiad cychwynnol yma.

## Creu cyfleoedd ar gyfer dilyniant mewn elfennau rhifedd ar draws y cwricwlwm
## Blwyddyn 4: Tymor yr haf

<table>
<tr><td colspan="3">Llinyn rhifedd y FfLlRh: Defnyddio sgiliau data<br>Elfennau: Casglu a chofnodi data, cyflwyno a dadansoddi data, dehongli canlyniadau</td></tr>
<tr><td colspan="3">Mae’r dysgwyr yn gallu:</td></tr>
<tr><td>• paru gwrthrychau, lluniau, geiriau a llythrennau o stori<br>• paru synau anifeiliaid â’u lluniau.</td><td rowspan="2">Thematig</td><td>Saesneg<br>The Pig in the Pond<br>(Walker Books Ltd., 2006)</td></tr>
<tr><td>• rhannu’r anifeiliaid yn grwpiau<br>• paru rhif â grŵp<br>• cofnodi’r hyn y maent wedi ei wneud mewn amrywiaeth o ffyrdd.</td><td>Mathemateg<br>Fferm</td></tr>
<tr><td>• dewis, dethol, casglu, gwahanu a dosbarthu lluniau, modelau a gwrthrychau sy’n gysylltiedig â’r pwll.</td><td colspan="2">Gwyddoniaeth<br>Bywyd pwll</td></tr>
<tr><td>• dewis a pharu teclynnau, dethol llysiau, tuniau a chynhwysion<br>• llunio rhestr siopa a ryseitiau drwy ddethol a threfnu lluniau, geiriau a gwrthrychau<br>• pleidleisio am eu hoff flas a’i gofnodi mewn tabl syml.</td><td colspan="2">Dylunio a thechnoleg<br>Cawl</td></tr>
<tr><td>• defnyddio camera i dynnu llun o wrthrychau a lleoliadau adnabyddus o onglau gwahanol<br>• dethol y lluniau i mewn i grwpiau a’u trefnu’n gasgliadau<br>• cofnodi synau a’u paru â gwrthrychau/lluniau o’r lleoliadau y maent yn gysylltiedig â nhw.</td><td rowspan="3">Thematig</td><td>TGCh<br>Creu a chyfleu gwybodaeth leol</td></tr>
<tr><td>• paru, dethol a labelu lluniau sy’n dangos eu cartrefi eu hunain<br>• paru lluniau gyda fideos a recordiadau sain o aelodau’r teulu.</td><td>Daearyddiaeth<br>Ble rwy’n byw?</td></tr>
<tr><td>• ymweld â lleoliadau gerllaw a thynnu lluniau ohonynt, gan gasglu gwrthrychau ‘y deuir o hyd iddynt’<br>• trefnu, cyflwyno a labelu’r hyn y maent wedi dod o hyd iddo.</td><td>Celf<br>Tirluniau Cymru</td></tr>
<tr><td>• paru offerynnau gyda’r synau y maent yn eu creu<br>• dangos hoffter o offeryn<br>• paru offerynnau gyda’r dull priodol o’u storio (casyn neu focs).</td><td colspan="2">Cerddoriaeth<br>Dangos mwynhad (offerynnau)</td></tr>
<tr><td>• symud rhannau o’u corff, gan gopïo symudiadau partner.</td><td colspan="2">Addysg gorfforol<br>Dawns – gwaith drych</td></tr>
</table>

Canllawiau atodol ar gynllunio’r cwricwlwm

Ionawr 2013

Dogfen ganllawiau rhif: 092/2013

**Mapio dilyniant mewn elfennau/agweddau llythrennedd a rhifedd ar y FfLlRh**

Wrth fapio'r cyfleoedd hyn, mae athrawon yn ystyried dilyniant drwy'r FfLlRh ar gyfer yr elfennau 'Defnyddio sgiliau data', gan ganolbwyntio ar yr adrannau mwyaf perthnasol o'r FfLlRh ar gyfer eu hysgol (yr amrywiaeth o ragflaenwyr ym map llwybrau ADD hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen).

Oherwydd yr amrywiaeth eang o oedrannau ac anghenion o fewn dosbarthiadau, maent am sicrhau bod gweithgareddau a gynlluniwyd yn cynnwys tasgau cyfoethog sy'n galluogi dysgwyr â lefelau gwahanol iawn o sgiliau i gael eu cyflwyno i'r elfennau hyn, eu hatgyfnerthu a'u cymhwyso yn unol â'r datganiad o ddilyniant sy'n disgrifio eu perfformiad presennol orau.

Maent yn asesu i ba raddau y mae pob tasg yn hwyluso dysgwyr drwy'r amrywiaeth hwn, ac yn nodi addasiadau y gellir eu gwneud er mwyn gwella rhai tasgau.

Wrth gyflawni'r broses hon, mae athrawon drwy'r ysgol yn:

- gwella eu dealltwriaeth o ddilyniant ar gyfer yr elfennau hyn
- darllen barn gyffredin am y modd y gellir adnabod dilyniant ym mhob dysgwr a'i ddehongli
- nodi'r angen i sicrhau bod cynorthwywyr dysgu ac addysgu hefyd ar gael i ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ddilyniant.

Mae'r ysgol yn bwriadu parhau â'r broses fapio ar gyfer pob blwyddyn a thymor cynllunio. Yna caiff cynlluniau gwaith eu hadolygu i sicrhau y caiff 'Defnyddio sgiliau data' ei gynrychioli'n briodol drwy'r gwaith cynllunio.

Er mwyn rheoli'r gwaith o adolygu pob elfen ac agwedd o gydrannau llythrennedd a rhifedd y FfLlRh, bydd cynllun gweithredu'r ysgol yn canolbwyntio i gychwyn ar adolygu'r blynyddoedd cynllunio a ddewiswyd i ddosbarthiadau eu dilyn ym mis Medi 2013.

## Trefnu'r ystafell ddosbarth

Bydd proses fapio'r cwricwlwm yn egluro'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i gyflwyno, atgyfnerthu a chymhwyso'r FfLlRh a bydd yn helpu athrawon gyda'u gwaith cynllunio tymor byr. Pan gaiff tasgau eu cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth, bydd angen i athrawon fod yn ymwybodol o broffil sgiliau presennol pob dysgwr ym mhob agwedd ac elfen o'r FfLlRh, a'r ffordd y gellir gwahaniaethu tasgau er mwyn cyfateb iddynt.

Bydd cynlluniau addysg unigol yn nodi agweddau neu elfennau dethol sy'n flaenoriaethau ar gyfer dysgwyr penodol, gan gynnwys faint o gymorth sydd ei angen arnynt ar hyn o bryd. Mae cynlluniau addysg unigol yn ffordd bwysig o gyfleu'r wybodaeth hon rhwng athrawon a chynorthwywyr dysgu ac addysgu fel bod pawb sy'n gweithio gyda dysgwr yn ei hwyluso mewn ffordd debyg.

Bydd ysgolion a lleoliadau yn defnyddio amrywiaeth o ffyrdd o gaffael ymatebion dysgwyr i eitemau a dargedwyd mewn cynlluniau addysg unigol (e.e. drwy sylwadau ar nodiadau gludiog, cofnodion dysgwyr neu werthusiad cyfnodol). Pa ffordd(ffyrdd) bynnag y byddant yn eu dewis i wneud hyn, mae'n hanfodol bod pawb sy'n gweithio gyda dysgwr penodol yn gwybod pryd a sut i leihau'r cymorth a chynyddu'r her er mwyn sicrhau llwyddiant a dilyniant.

Lle mae sgil wedi'i gyflwyno a'i atgyfnerthu mewn un pwnc a'r flaenoriaeth bellach yw annog y dysgwr i'w gymhwyso mewn amrywiaeth ehangach o gyd-destunau, mae angen gwneud hyn yn glir i bawb dan sylw. Dangosir un ffordd bosibl o wneud hyn yma.

| Llythrennedd | |
|---|---|
| **Llinyn** | Darllen ar draws y cwricwlwm |
| **Elfen** | Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth |
| **Agwedd** | Strategaethau darllen |
| **Colofn** | Camau C |

**Blaenoriaeth y FfLlRh:**

**Canfod eitem a ddymunir drwy archwilio/dehongli labeli**
Mae Bethan wedi dysgu i ddod o hyd i eitemau yn yr ystafell ddosbarth gan ddefnyddio labeli, geiriau a symbolau. Bellach mae angen iddi gymhwyso'r sgil hwn yn ehangach (gan ddefnyddio cyn lleied o awgrymiadau geiriol â phosibl).

**Saesneg**
Dewis symbol ar gyfrifiadur llechen er mwyn dewis diod: 'dŵr', 'oren' neu 'gyrens duon'.

Dewis hoff lyfrau drwy adnabod eu cloriau.

**Cerddoriaeth**
Dewis hoff CDau a DVDau drwy adnabod eu cloriau a labeli ysgrifenedig.

Dewis 'effaith' gan ddefnyddio symbolau ar allweddell.

**Celf**
Canfod 'llinyn', 'glud' a 'chreonau' (yn ôl symbol) gan ddefnyddio labeli ar ddroriau yn yr ystafell gelf.

**Gwyddoniaeth**
Dethol deunyddiau i mewn i gynhwysyddion ailgylchu wedi'u labelu â symbolau – plastig (poteli), caniau, papur, batris, ac ati.

**Technoleg bwyd**
Canfod amrywiaeth o eitemau bwyd mewn siop a chegin drwy adnabod eu labeli/brandiau ac yn ôl symbolau ar restr.

# Adrodd

Bydd angen i athrawon gyflwyno adroddiadau i rieni/gofalwyr bob blwyddyn ar gynnydd dysgwyr drwy'r FfLlRh. Bwriedir i'r adroddiadau fod ar ffurf naratif a dylent nodi cryfderau dysgwr mewn elfennau/agweddau o'r FfLlRh, yn ogystal â meysydd i'w datblygu ymhellach. Dylai ysgolion bellach adolygu eu trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn briodol.

O ran dysgwyr â datganiad anghenion addysgol arbennig (AAA), mae ysgolion eisoes yn llunio adroddiad naratif am gynnydd cyffredinol pob dysgwr a gaiff ei drafod gyda rhieni/gofalwyr yn ystod cyfarfod adolygu (datganiad) blynyddol y dysgwr. Efallai bod yr adroddiad hwn eisoes yn canolbwyntio ar sgiliau allweddol. Yn sgil cyflwyno'r FfLlRh, efallai y bydd angen newid fformat yr adroddiad adolygu blynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion newydd. Gellir hefyd bodloni'r gofynion drwy adroddiad diwedd blwyddyn, ar yr amod bod ei fformat yn cefnogi hyn.

Ni fwriedir i'r adroddiad bennu 'lefel' ar gyfer dysgwyr nac ychwaith ymagwedd 'cyd-fyd orau'. Ni chaiff unrhyw ddata cenedlaethol ei gasglu mewn perthynas ag asesiadau a wneir yn erbyn y FfLlRh.

# Crynodeb

Mae cyflwyno'r FfLlRh yn cynnig cyfle i ysgolion, gan gynnwys ysgolion arbennig a lleoliadau i ddysgwyr ag ADY, adolygu eu trefniadau presennol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac ystyried pa newidiadau y mae angen iddynt eu gwneud i sicrhau'r canlynol:

- bod gan bob aelod o staff (athrawon a chynorthwywyr dysgu ac addysgu) ddealltwriaeth glir o ddilyniant drwy agweddau ac elfennau'r FfLlRh
- y caiff dysgwyr gyfleoedd priodol i ddatblygu, atgyfnerthu a chymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd ym mhob maes/pwnc
- y caiff cynnydd dysgwyr drwy'r FfLlRh ei asesu a'i fonitro'n briodol
- bod pob aelod o staff sy'n gweithio gyda dysgwr yn ymwybodol o'i flaenoriaethau unigol ar y FfLlRh a faint o 'gymorth' a/neu 'her' sydd eu hangen arno ar hyn o bryd er mwyn llwyddo a gwneud cynnydd
- y caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu am y ffordd y mae eu plentyn yn datblygu drwy'r FfLlRh ac maent yn ei deall.

Canllawiau atodol ar gynllunio'r cwricwlwm

Ionawr 2013

Dogfen ganllawiau rhif: 092/2013